# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 17 Mehefin 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(205)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Datganiad am Bolisi'r Iaith Gymraeg (45 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Degawd o Gyni i Gymru? Y pwysau ariannol a fydd yn wynebu'r GIG yng Nghymru tan 2025 a 2026 - adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield. (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Dyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig (45 munud)**

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth**

**ddiweddaraf am y Strategaeth Twristiaeth (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**
Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020
Croeso Cymru (Saesneg yn unig)

**7 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi: Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf (30 munud)**
**Dogfen Ategol**
Gwerthusiad cenedlaethol o Deuluoedd yn Gyntaf

**8 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Creu'r Amgylchiadau ar gyfer Twf Gwyrdd (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**
Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020
Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

**9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Tai (Cymru) (5 munud)**

**NDM5526 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Tai (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 - 13

b) Atodlen 1

c) adrannau 14 - 52

d) adrannau 54 - 61

e) Atodlen 2

f) adrannau 62 - 141

g) Atodlen 3

h) adrannau 142 - 146

i) adran 1

j) adran 53

k) Teitl hir

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 18 Mehefin 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Mehefin 2014 i'w hateb ar 17 Mehefin 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau i bobl â salwch meddwl? OAQ(4)1734(FM)

**2. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd? OAQ(4)1728(FM)**W**

**3. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'i thargedau newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)1729(FM)

**4. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa ymrwymiad a roddir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hosbisau yng Nghymru? OAQ(4)1724(FM)

**5. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa brosiectau seilwaith mawr sydd gan Lywodraeth Cymru yn eu lle i ddangos bod Gogledd Cymru yn gyrchfan i fynd iddi? OAQ(4)1719(FM)

**6. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol? OAQ(4)1720(FM)

**7. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa asesiad a wnaeth y Prif Weinidog o'r cynnydd tuag at gydraddoldeb o ran cyflogau yng Nghymru? OAQ(4)1722(FM)

**8. Sandy Mewies (Delyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn henebion yng Nghymru rhag cael eu difrodi? OAQ(4)1727(FM)

**9. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau strategol ar gyfer addysg Gymraeg? OAQ(4)1731(FM)**W**

**10. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd Cymru wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)1733(FM)

**11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau sy'n cychwyn ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1735(FM)

**12. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Tîm Gorfodaeth Forol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1725(FM)

**13. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i fenywod yn economi Cymru? OAQ(4)1723(FM)

**14. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog asesiad o effaith pleidlais 'Ie' yn refferendwm yr Alban ar Gymru? OAQ(4)1721(FM)**W**

**15. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** Pa asesiad a wnaeth Llywodraeth Cymru o'r effaith a gaiff uwchgynhadledd NATO sydd ar ddod, ar Ganol De Cymru? OAQ(4)1732(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendau'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn cyfarfod, ac mae modd eu gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 24 Mehefin 2014 a dydd Mercher 25 Mehefin 2014**
**Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2014 a dydd Mercher 2 Gorffennaf 2014**
**Dydd Mawrth 8 Gorffennaf 2014 a dydd Mercher 9 Gorffennaf 2014**
**********************************************************************

**Dydd Mawrth 24 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (i'w hateb gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth) (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2014 (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dadreoleiddio mewn perthynas â gwelliannau i'r Bil ynghylch Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, Deddf Bridio Cŵn 1973 a Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Tai (Cymru) (210 munud)

  Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

**Dydd Mercher 25 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Cyflwyno'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru (60 munud)
- Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygio) 2014 (15 munud)

  Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Newidiadau Ansylweddol a Chywiro Gwallau) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Newidiadau Ansylweddol) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch Ariannu Addysg Uwch (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Fer – Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 8 Gorffennaf 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cyflwyno'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (60 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd (15 munud)
- Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014 (15 munud)

**Dydd Mercher 9 Gorffennaf 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i reoli tir yn gynaliadwy (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)